**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C**
**Cyfarfod Rhif 453**
**2 Rhagfyr 2021 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) eitemau 1-9 |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Geraint Evans | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 7 & 8 |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 4 & 10 |
| | Nia Edwards-Behi | (Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant) – eitem 10 |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

| **COFNODION** | | |
|---|---|---|
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. | |
| 1.1 | Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd** | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Croesawyd Geraint Evans i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd fel aelod gweithredol. | |
| 3 | **Adroddiad y Prif Weithredwr** | |
| 3.1 | Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod. | |
| 3.1.1 | **Ffi Drwydded**<br>Nodwyd fod OE wedi cynnal cyfarfodydd er mwyn trafod trosglwyddo nifer o'i ddyletswyddau, ynghyd â chyflwyno EM a GP i'w gysylltiadau yn y DCMS, OfCom a'r BBC. | |
| 3.1.2 | **HD**<br>Adroddwyd ein bod wedi cael cadarnhad mewn egwyddor y bydd modd i S4C fynd yn ôl ar HD drwy glustnodi gofod Cbeebies HD yn ystod y nos a'r penwythnosau. | |
| 3.1.6 | **Rhestr Digwyddiadau**<br>Gwnaethpwyd cais i ymestyn y *listed events* i gynnwys rhestr o chwaraeon Cymru, gan nad yw S4C yn gymwys i fod yn ddarlledwr y gemau rheini nad oes digon o *coverage* yn y DU (yn ôl y ddeddfwriaeth bresennol). Credir bod angen mynnu fod rhestr benodol ar gyfer Cymru a bod S4C ar honno. Mae angen sicrhau sylw teilwng yn rhanbarthol, ac mae'r Alban hefyd wedi gwneud cais yn yr un modd. | |
| 3.1.7 | **Aelodaeth Bwrdd**<br>Wrth ystyried trafodaethau ar gyfer deddf newydd, cafwyd trafodaeth am y broses recriwtio i'r Bwrdd, ac roedd aelodau'n awyddus i'r Bwrdd gael mwy o ddylanwad o ran cydbwysedd yn y Bwrdd i'r dyfodol. | |
| 3.1.9 | Awgrymodd RhW efallai y bydd modd agor y drafodaeth ar ôl y rownd yma o benodiadau. | |
| 3.1.10 | Atgoffodd GP y drefn y mae'r BBC wedi'i fabwysiadau, sef y DCMS i benodi'r Cadeirydd a'r pedwar aelod anweithredol o'r cenhedloedd, a bod yr aelodau eraill yn cael eu dewis yn fewnol gan Fwrdd y BBC. | |
| 3.1.11 | **Penderfyniad: Trefniadau llywodraethu'r Bwrdd**<br>**Holwyd a fyddai mwy o fewnbwn gan aelodau'r Bwrdd i'r broses i benodi aelodau anweithredol unwaith ag y byddai trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Unedol wedi eu ffurfioli. Penderfynwyd codi hyn gyda'r DCMS i weld beth fyddai eu teimladau ynghylch datblygiad o'r fath.** | **GP** |
| 3.1.12 | **DR**<br>Adroddwyd y bydd adroddiad yn dod i'r Bwrdd o ran yr holl opsiynau posib ar gyfer trefniadau DR i'r dyfodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.13 | Nodwyd fod angen i'r Bwrdd ymweld gyda PTG er mwyn cael gwell dealltwriaeth cyn penderfynu ar y strategaeth newydd ar gyfer y safle. | |
| 3.1.14 | **Penderfyniad: Ymweld â PTG**<br>**Penderfynwyd y byddai'n syniad da i aelodau'r Bwrdd ymweld â safle PTG er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cynlluniau ar gyfer y safle. EM i checio os oes modd cwrdd yno, neu o leiaf gynnal ymweliad a'r safle.** | **EM** |
| 4.<br>4.1 | **MoU Cymru Creadigol**<br>Mae S4C wedi bod yn datblygu'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chymru Greadigol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ddogfen a gyflwynwyd yn un lefel uchel heb statws gyfreithiol, ond eto gyda gwahanol ymrwymiadau clir, gyda'r Llywodraeth i ddarparu cyllid i gefnogi ffilmiau a dramâu yn y Gymraeg, a hyfforddiant i'r sector. | |
| 4.1.1 | Roedd y DCMS yn ymwybodol o'r bwriad i gytuno'r Memorandwm hwn, ond heb weld y manylion. Roeddent wedi croesawu'r cynlluniau mewn egwyddor gan y byddent yn cryfhau'r trefniadau presennol, gyda phrif gyllid S4C yn cael ei bennu gan y DCMS yn Llundain, ond gyda chydweithio ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru trwy'r Memorandwm gyda Chymru Greadigol. | |
| 4.1.2 | Mae Dawn Bowden AoS wedi cymeradwyo'r Memorandwm ar ran y Llywodraeth, ac wedi i S4C ei gymeradwyo, y bwriad yw arwyddo'n ffurfiol a rhyddhau datganiad. | |
| 4.1.3 | **Penderfyniad:  MoU Cymru Creadigol**<br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymru Greadigol yn ffurfiol, a holwyd OE i rannu copi o'r Memorandwm terfynol gyda'r DCMS er gwybodaeth.** | **OE** |
| 5.<br>5.1 | **Arloesedd**<br>Cynhyrchwyd yr adroddiad yma yn arbennig ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd er mwyn rhoi syniad o'r math o bethau sydd yn mynd ymlaen yn S4C. Awgrymwyd y byddai'n syniad lincio unrhyw wobrau neu unrhyw impact economaidd i mewn i'r ddogfen hon yn y dyfodol gan gadw golwg ar y data. | |
| 5.1.1 | Cafwyd trafodaeth am y bwriad i greu ffilm, o bosib ar gyfer ail gyfres Gwledd, fydd yn caniatáu i'r gwyliwr benderfynu beth sydd yn digwydd o fewn y ddrama.  Llawer o waith datblygu i'w wneud ac mae'r trafodaethau'n parhau. | |
| 5.1.2 | Croesawodd RhW y math yma o ddogfen ac roedd am ystyried os oes modd cyfeirio'n ôl ati o bryd i'w gilydd er mwyn cael tracio unrhyw ddatblygiadau. | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.1.3 | **Penderfyniad: Gwerthiant Rhyngwladol / i Blatfformau Eraill**<br>**Wrth i fwy a mwy o gwmnïau cynhyrchu werthu eu cynnwys yn rhyngwladol a / neu i blatfformau eraill, holwyd pa ddata sydd ar gael i S4C ar wylio ar y platfformau hynny. Byddai OE yn gwirio pa ddata mae Britbox yn ei ddarparu ar y gwylio o raglenni gwreiddiol S4C ar y platfform.** | **OE/EJ** |
| 6.<br><br>6.1<br><br><br>6.1.1 | **Penodiad Chris Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwili a Materion Eraill**<br>Argymhellwyd i benodi Chris Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Roedd pawb yn hapus i gymeradwyo.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yn ffurfiol penodiad Chris Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a chymryd y camau perthnasol i hysbysu DCMS.** | **GP** |
| 7.<br>7.1<br><br>7.1.1 | **Adroddiad Ariannol**<br>Cyflwynodd ShW adroddiad ariannol ar gyfer chwarter 2, 2021-22.<br><br>Nodwyd y prif bwyntiau gan gynnwys: newidiadau i'r gyllideb yn dilyn gwariant cofid, rhai swyddi gwag yn golygu llai o wariant mewn rhai adrannau, heb benodi prentisiaid eleni; llai o drosglwyddiad difidend gan fod llai o incwm yn PTG a chyfraddau llog isel; o ran gwariant cynnwys, nodwyd fod y prif wariant yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol gan fod anfonebau gan gwmnïau cynhyrchu heb eu cyflwyno.<br><br>Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn yr adroddiad. | |
| 8.<br><br>8.1<br><br><br>8.1.1<br><br>8.1.2 | **Ystyried Adroddiad Sicrwydd Ariannol Ch1- 2 i'w gyflwyno i Fwrdd y BBC**<br><br>Nodwyd fod yr adroddiad Sicrwydd Ariannol, yn hanesyddol, wedi'i chyflwyno i'r BBC ddwy waith y flwyddyn, ond bellach roedd teimlad, yn arbennig ar ôl trafod efo Phil Harrold yn y BBC, na fyddai rheidrwydd arnom i wneud hynny yn y dyfodol, gan fod yr NAO bellach yn goruchwylio ni a'r BBC.<br><br>Awgrymodd EM, unwaith y daw'r setliad, y bydd yn gyfle i ail-edrych ar sawl peth o'r newydd i weld pa fath o adrodd sydd ei angen.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol, i'w gyflwyno i'r BBC.** | **GP** |
| 9.<br><br>9.1 | **Cynllun Rhaglenni'r BBC 2022-23**<br><br>Cyflwynodd GE Gynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2022-23. Nodwyd nad oedd fawr wedi newid, oni bai fod Cofid efallai yn creu mwy o gostau. Roedd y Pwyllgor Cynnwys eisoes wedi ystyried y Cynllun Rhaglenni arfaethedig, ac wedi argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Cynllun. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.1.2 | Nodwyd fodd bynnag y gallai cofid gael effaith eithaf sylweddol, yn arbennig wrth ystyried chwaraeon, a bod angen bod yn ymwybodol a bod â'r gallu i newid pethau ar fyr rybudd, gan sicrhau bod cynllun eisoes yn ei le pe byddai digwyddiadau yn cael eu canslo. | |
| 9.1.3 | Ar y cyfan, roedd yr oriau yn dderbyniol, sef 504 am y flwyddyn ac roedd GE yn weddol fodlon o ran y costau arfaethedig. | |
| 9.1.4 | Nodwyd y gallai ganslo'r Eisteddfod, neu gynnal Eisteddfod Amgen, greu peth anawsterau, ond mae S4C a'r BBC eisoes yn trafod cynlluniau ar gyfer llenwi'r oriau. | |
| 9.1.5 | Awgrymwyd y gellid arall-gyfeirio rhywfaint o'r arian rygbi, pe na byddem yn llwyddo i gael yr hawliau fel gemau'r hydref, a'i wario ar gemau merched gan fod cynnydd yn y diddordeb. | |
| 9.1.6 | Nododd GE bod trafodaethau o ran yr hawliau wedi bod yn anodd, ond roedd yn awyddus iawn i ddangos pêl-droed merched, ac mae'n parhau gyda'r trafodaethau, ond ar hyn o bryd mae'r hawl escgliwsif gan ddarlledwyr eraill. | |
| 9.1.7 | **Penderfyniad: Cymeradwywyd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2022-23 yn ffurfiol.** | **Bwrdd** |
| 10 | **Ystyried Strategaeth Amrywiaeth S4C** | |
| 10.1 | Rhoddodd NE-B ddiweddariad ar y gwaith i ddatblygu Strategaeth Amrywiaeth newydd S4C. | |
| 10.1.1 | Awgrymwyd fod y ddogfen yn fwy uchelgeisiol bellach, ac yn ddogfen fesuradwy er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gwaith yn gywir. Bydd yn strategaeth pum mlynedd a fydd yn cael ei gwerthuso'n flynyddol. | |
| 10.1.2 | Bydd y camau nesa'n cynnwys cydweithio gyda gwahanol adrannau i greu llif gwaith, gan ei bod yn hollbwysig cael mewnbwn a chefnogaeth pawb. Mae'r strategaeth yn golygu y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, gan gynnwys ymuno gyda cynllun Diamond. | |
| 10.1.3 | Diolchodd DL am yr adroddiad ac awgrymodd rhywfaint o welliannau gan gynnwys datblygu adrodd ar weithgaredd ESG yn gyffredinol, a bod angen i ni fod yn glir ar sut y byddwn ni'n mesur llwyddiannau a methiannau. | |
| 10.1.4 | Ychwanegodd CHR fod yr holiadur staff, er nad yw'n orfodol, yn rhoi ciplun i ni o'r sefydliad, ac yn yr un modd gellid gofyn wrth y sector wneud yr un peth. Gellid yna cymharu yn erbyn y data cyffredinol sydd ar gael gan Diamond. Fodd bynnag, nododd OE fod problemau wedi codi gyda Diamond gan nad ydy'n bosib ei weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond credir y bydd modd datrys hynny. | |

| | | |
|---|---|---|
| 10.1.5 | Holodd AdG os ydyn ni fel S4C yn deall yn gwbwl ac yn gytûn beth fyddai llwyddiant yng nghyd-destun y Strategaeth – a oes KPIs, a sut fyddwn ni'n gallu dangos llwyddiant yn fewnol ac yn allanol? | |
| 10.1.6 | Roedd NE-B yn credu y byddai'r KPIs perthnasol yn dod yn haws i'w diffinio ar ôl trafod ymhellach gyda'r adrannau perthnasol o fewn S4C, a thrwy'r KPIs hynny, adrodd yn ôl drwy ddangos y llwyddiannau neu'r methiannau yn flynyddol. | |
| 10.1.7 | Cydnabuwyd fod angen mwy o waith mewnol, a bod angen ceisio mwy o *engagement* gan staff i wireddu'r cynllun. Cynigiwyd help y Bwrdd gydag unrhyw agwedd o'r gwaith. | |
| 10.1.8 | Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud y gwaith ymchwil mewnol yn gynt na'r hyn argymhellir yn y ddogfen, gan geisio darganfod beth sydd angen ei wneud yn y flwyddyn nesaf (2022) yn hytrach nag yn ystod haf 2023. | |
| 10.1.9 | Cytunodd GE bod angen i ni adlewyrchu Cymru fodern. Nid oedd S4C yn amrywiol o ran ein staff mewnol, ond roedd ein showreel ar amrywiaeth wir yn dangos pa mor dda y'n ni'n gallu'u bod ar sgrin. Roedd Hansh yn gwneud yn dda o ran amrywiaeth. Serch hynny, mae anabledd yn anodd i'w fesur, ac mae hynny'n flaenoriaeth i ni eleni. | |
| 10.1.10 | Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cael datganiad polisi ynglŷn a beth mae S4C yn ceisio'i wneud, i gyd-fynd gyda'r strategaeth. Gellid o bwrpas ail-bwrpasu elfen o'r naratif sy'n rhan o'r strategaeth. | |
| 10.1.11 | Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad, a'u hannog i barhau gyda'r gwaith da. Anogodd y swyddogion i gysylltu gyda'r Bwrdd os oes unrhyw gymorth y gallasent ei gynnig. Bydd hefyd angen cadw mewn golwg yr angen am amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd i'r dyfodol. | |
| 10.1.12 | **Penderfyniad: Cymeradwywyd y Strategaeth. Fodd bynnag, mewn perthynas â gwneud gwaith ymchwil i gydfynd gyda'r strategaeth, awgrymwyd symud y gwaith ymchwil i 2022 yn hytrach nag aros tan 2023.** | **NE-B** |
| 12<br>12.1 | **Cofnodion / Adroddiadau**<br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd (Rhif 452) gynhaliwyd ar y 15fed o Hydref.<br><br>Cyflwynwyd y cofnodion o'r pwyllgorau isod er gwybodaeth:<br>Cofnodion Bwrdd Masnachol (13.10.21)<br>Cofnodion o'r Pwyllgor Cyfathrebu (17.11.21)<br>Cofnodion o'r Pwyllgor Archwilio (24.11.21)<br>Cofnodion o'r Pwyllgor Cynnwys (24.11.21) | |
| 13. | **Pwyntiau Gweithredu** | |

| | | |
|---|---|---|
| 13.1 | Cyflwynwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu. | |
| 14.<br>14.1 | **Penderfyniadau Rhwng Cyfarfodydd**<br>Tynnwyd sylw at dri benderfyniad a ddigwyddodd ers cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd:<br>Cymeradwywyd argymhelliad bod S4C yn cefnogi'n ffurfiol drafft o Addewid mewn perthynas â Chynnwys ar Hinsawdd Byd-eang.<br>Penodwyd Sian Doyle yn Brif Weithredwr S4C, a bydd yn cychwyn ar y gwaith o'r 1af o Ionawr, 2022. Bydd yn cysgodi Owen Evans o'r 6ed o Ragfyr.<br>Penodwyd GE fel aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd Unedol | |
| 15.<br><br>15.1<br><br><br><br><br><br>15.1.2<br><br><br><br>15.1.3<br><br><br><br><br><br>15.1.5 | **Unrhyw fater arall**<br><br>**Gwerthuso'r Bwrdd**<br>Cafwyd trafodaeth am werthusiad blynyddol o'r Bwrdd, ac awgrymwyd y dylem ystyried ddechrau ar y gwaith. Nodwyd hefyd fod adolygiad o'r pwyllgorau yn digwydd a bydd rhaglen waith lawn dros gyfnod Ebrill 2022-Mawrth 2023 yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn fuan yn y flwyddyn newydd.<br><br>**Cyfarfod olaf OE**<br>Cofnodwyd yn ffurfiol ein diolch i OE am ei waith, ac i ddymuno'n dda wrth fynd i'r swydd newydd.<br><br>Llongyfarchodd y Cadeirydd OE ar ei lwyddiannau yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr S4C. Roedd OE wedi sicrhau bo ni'n gallu gweithredu'n rhithiol a bod gan y staff yr adnoddau i wneud hynny. Roed ei gefnogaeth a'r cyfathrebu cyson gyda'r staff wedi sicrhau fod pobl yn gwybod beth oedd yn mynd mlaen. Y gobaith yw y ceir cadarnhad o'r setliad ariannol gan y DCMS, yn goron ar waith OE i bob pwrpas.<br><br>Dywedodd OE ei fod wedi mwynhau ei gyfnod gydag S4C yn fawr. Roedd wedi etifeddu tîm cryf ac wedi ychwanegu at hwnnw. Roedd y tîm wedi bod yn wych, a dymunodd pob lwc i S4C i'r dyfodol. Dymunodd pob bendith i Siân Doyle. | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd**

**Dyddiad**

**<u>Dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd</u>:**
**Bwrdd: 20 Ionawr**